

*Themâu Strategol Allweddol Is-grŵp Moroedd ac Arfordir y
Grŵp Bord Gron*

Ein cenhadaeth gyffredin

*Helpu i sicrhau bod Cymru yn y sefyllfa
gryfaf bosibl i lwyddo mewn byd wedi
Brexit*

Rhaid i ni wneud y canlynol ...

- **Cynllunio i wneud y defnydd gorau o'n moroedd**
- **Gofalu am ein hamgylchedd morol a'n hadnoddau naturiol yn effeithiol**
- **Parhau i fod yn bartneriaid cyfrifol wrth reoli moroedd a physgodfeydd y DU**
- **Sicrhau bargaen decach i'r diwydiant pysgota**
- **Bod yn annibynnol**

“Cynllunio i wneud y defnydd gorau o'n moroedd”

Cyflwyno Cynllun Morol a'i roi ar waith

- Rheoli ein hadnoddau morol i sicrhau'r buddiannau lluosog mwyaf posibl
- yn cynnwys polisi ar amrywiaeth eang o bynciau a gweithgareddau sydd ar gael mewn **un ddogfen** am y tro cyntaf

Ysgogi 'twf glas' mewn sectorau morol

- Sicrhau **buddiannau lluosog** i'r amgylchedd, cymdeithas a'r economi

Cefnogi cymunedau arfordirol a gwledig cynaliadwy

- Cynnwys cymunedau yn y gwaith o roi'r Cynllun Morol ar waith
- Ceisio lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy addasu'r arfordir lle y bo'n briodol

Cydnabod pwysigrwydd cymunedau arfordirol i ddiwylliant Cymru

- Gweithio gyda Croeso Cymru a phartneriaid eraill i gael yr effaith fwyaf bosibl a sicrhau bod gwaddol 'Blwyddyn y Môr' a blynyddoedd thematig eraill yn parhau

“Gofalu am ein hamgylchedd morol a'n hadnoddau naturiol yn effeithiol”

Ardaloedd Morol Gwarchodedig

- Sicrhau bod rhwydwaith o ardaloedd morol gwledig sy'n ecolegol gydlynol ac sy'n cael ei reoli'n dda

Parhau i anelu at ennill Statws Amgylcheddol Da

- Gweithio'n rhanbarthol drwy OSPAR

Ymgorffori egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn ein gwaith

- Rheoli ein hadnoddau morol mewn ffordd gynaliadwy i sicrhau'r buddiannau lluosog mwyaf posibl

Parhau i asesu ein gweithgareddau pysgota yng Nghymru

- Deall, mesur a, lle y bo'n angenrheidiol, reoli'r ffordd y mae gweithgarwch pysgota masnachol yn rhyngweithio ag ardaloedd morol gwarchodedig

“Parhau i fod yn bartneriaid cyfrifol wrth reoli moroedd a physgodfeydd y DU”

Sicrhau bod gan bysgodfeydd ym mharth Cymru gymhwysedd deddfwriaethol llawn

- Drwy'r Bil Pysgodfeydd o bosibl

Cydweithio â phartneriaid yng Nghymru a thu hwnt

- Er mwyn cael yr effaith fwyaf a sicrhau'r budd mwyaf
- Rhannu dysgu ac arbenigedd

Trwyddedu Morol

- System trwyddedu morol gadarn sy'n addas at y diben

“Sicrhau bargaen decach i'r diwydiant pysgota”

Ailgydbwysu cwota pysgodfeydd y DU

- O fewn terfynau cynaliadwyedd
- Cyfran well i gychod bach y glannau
- Nod hirdymor

Sicrhau bod adnoddau yn nyfroedd Cymru ar gael i fwy o gychod a llongau yng Nghymru

• Sefydlu parth 0-12nm o amgylch y DU ar gyfer cychod a llongau a gaiff ei reoli fel rhan o drefniadau gweinyddol. Blaenoriaethu mynediad y tu hwnt i'r parth 12nm i fflyd y DU drwy gyd-drafodaeth

Chwilio am farchnadoedd bwyd môr domestig a rhyngwladol newydd a thyfu'r rhai sy'n bodoli eisoes

- Arddangosfeydd masnachu
- Gweithio gyda'r Is-adran bwyd a Grŵp Cynghori ar Bysgod Môr Cymru
- Cyflawni Strategaeth Bwyd Môr Cymru

Llunio'r amodau ar gyfer moderneiddio'r diwydiant yng Nghymru

• Gan gynnwys drwy gynnal yr arian y mae Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop a ffrydiau ariannu eraill yr UE yn ei roi ar hyn o bryd

“Bod yn annibynnol”

Gwella ein gallu o ran gwyddoniaeth forol a thystiolaeth

- Meithrin gallu yng Nghymru
- Gweithio gyda chyrff gwyddonol eraill yng Nghymru a'r DU, y diwydiant a'r byd academaidd

Gwella'r ffordd rydym yn cydymffurfio ac yn gorfodi

- Cyflwyno a defnyddio ein llongau patrolio pysgodfeydd newydd
- Sicrhau bod ein timau Gorfodi Morol yn hollol barod ar gyfer pontio o'r UE

Adolygu ein deddfwriaeth ar bysgodfeydd a'n fframweithiau rheoleiddio

- Croesawu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd yn ogystal â Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir a rhwymedigaethau rhyngwladol

Gwella ein systemau TGCh a rheoli data

- Uwchraddio a rhesymoli'r systemau rydym yn eu rhannu er mwyn sicrhau eu bod wedi'u diogelu at y dyfodol ac yn addas at y diben
- Cyfrannu at holl systemau'r DU lle y bo'n briodol